# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gyfarfod 4, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 19 Rhagfyr 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Gareth Davies, Hugh Irving, Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Bobby Feeley, Y Cynghorydd Gwyneth Kensler a/ac Y Cynghorydd Glenn Swingler

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Pat Jones a Peter Scott.

Mynegodd y pwyllgor ei gydymdeimlad tuag at y Cydlynydd Craffu a'r cyfieithydd o ganlyniad i’w profedigaethau diweddar. Yn ogystal â chydymdeimlo dymunodd y pwyllgor adferiad buan i’r Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol ag eitemau 5, 6, 7 ac 8 yn y rhaglen gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019.

Materion yn codi -

- Tudalen 8 – Codwyd mater Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a chyflogi Swyddog Rhostir, nid oedd yna wybodaeth ychwanegol ar y mater.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.*

**5 YSBYTY DINBYCH**

Cyflwynodd Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) y cyflwyniad - Ysbyty Dinbych. Hefyd yn bresennol o BIPBC roedd Alison Kemp, Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol, Gwasanaethau Cymunedol.

Amlygodd y cyflwyniad sawl maes yn ymwneud ag ysbyty Dinbych, hysbyswyd y pwyllgor fod 17 gwely i gleifion mewnol wedi eu hatal yn ward Lleweni, roedd y gostyngiad hwn yn golygu fod 23 gwely yn parhau ar agor. Lliniarwyd effaith y gostyngiad mewn gwelyau drwy leoli cleifion eraill yn Rhuthun a Threffynnon. Byddai ward Lleweni yn costio tua £10-£12 miliwn i'w hail agor, roedd y ward wag yn cael ei defnyddio dros dro i gartrefu'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn yr ardal. Y camau nesaf ar gyfer yr ysbyty oedd prosiect iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector ar y cyd a oedd wedi ei sefydlu a'i ariannu gan gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Roedd y tîm wedi drafftio manylion ar gyfer partner i alluogi astudiaeth ddichonoldeb ar gyfleusterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Ninbych. Byddai'r adolygiad yn cynnwys -

- Cyfeiriad strategol wedi ei gadarnhau drwy gyd-gynhyrchu gyda budd-ddeiliaid
- Dadansoddiad o'r modelau gofal presennol ac i ragweld yr angen yn y dyfodol
- Datblygu modelau lefel uchel
- Ymgysylltu ar fodelau gyda budd-ddeiliaid craidd, grwpiau gyda nodweddion a ddiogelir a grwpiau anodd eu cyrraedd
- Ymgysylltiad ehangach gyda'r cyhoedd ar ddewisiadau ar y rhestr fer
- Astudiaeth ddichonoldeb a dewisiadau wedi'u pwysoli

Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Holwyd ynglŷn â cholli'r gwelyau ac a oedd yna welyau ychwanegol ar gael mewn ysbytai eraill.
  Hysbyswyd aelodau fod yna 5 gwely ychwanegol ar gael yn Rhuthun, sicrhawyd aelodau fod y gwelyau yn cael eu monitro'n ddyddiol. Nodwyd hefyd mai'r bwriad a'r targed oedd i sicrhau y byddai iechyd cleifion yn gwella ac y gallant gael eu symud yn ôl i ofal nyrsio neu eu cartrefi.

- Codwyd mater y mesurau ariannol arbennig yr oedd BIPBC wedi ei roi ynddynt ac amlygwyd pryderon ynglŷn â chydweithredu o ganlyniad i'r trafferthion ariannol o fewn BIPBC.
  Hysbyswyd aelodau fod BIPBC yn parhau mewn mesurau arbennig. Ond y byddai cydweithredu o fudd, gyda'r boblogaeth yn heneiddio a'r pwysau parhaus, er mwyn sicrhau fod anghenion cleifion yn cael eu bodloni.

- Holodd y pwyllgor ynglŷn â'r terfynau amser oedd yn cael eu dangos yn y cyflwyniad ac eraill sydd wedi eu dangos yn ymwneud ag Ysbyty Dinbych, roedd y terfynau amser yn wahanol.
  Hefyd amlinellwyd ei bod yn ymddangos nad yw'r materion a nodwyd o fewn y terfynau amser fel pe baent wedi eu gweithredu. Ymatebodd swyddogion y byddai'n ymddangos fod y gwaith yn dod yn ei flaen yn araf, roedd hyn o ganlyniad i'r mesurau arbennig yr oedd BIPBC ynddynt ar hyn o bryd, fe allai'r gwaith ymddangos fel ei fod yn dod yn ei flaen yn araf ond byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau.

- Holodd y pwyllgor swyddogion o BIPBC a allai gwasanaethau ychwanegol, fel mân anafiadau, gael eu cynyddu yn Ysbyty Dinbych a fyddai'n lleihau'r pwysau ar Glan Clwyd.
  Dywedwyd wrth y pwyllgor fod yna gynnydd eisoes wedi bod yn ysbyty Dinbych, roedd cefnogaeth pelydr x wedi ei gynyddu ac roedd cynlluniau i agor ar y penwythnos yn cael eu trafod.

- Amlygwyd effaith carbon BIPBC ac a oedd yna gynlluniau i wneud eu hadeiladau'n fwy carbon effeithiol.
  Hysbyswyd y pwyllgor fod yna gynlluniau i BIPBC leihau'r effaith o ran carbon gan nifer o wasanaethau.

**PENDERFYNWYD** *fod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi'r cyflwyniad ar Ysbyty Dinbych.*

## 6 PROSIECT YSBYTY CYMUNEDOL GOGLEDD SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Bethan Jones, y cyflwyniad ar Brosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych. Hefyd yn bresennol o BIPBC roedd Alison Kemp, Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol, Gwasanaethau Cymunedol.

Atgoffwyd y pwyllgor o gefndir y prosiect oedd yn anelu i foderneiddio Ysbyty Brenhinol Alexandra a chynnwys gwasanaethau newydd yn yr ardal. Roedd y prosiect yn anelu i adeiladu uned glinigol newydd ar y safle ochr yn ochr ag adnewyddu'r adeilad rhestredig gradd II presennol. Y gwasanaethau newydd a fyddai'n cael eu darparu fyddai:

- Ward i gleifion mewnol,
- Gwasanaethau ar yr un diwrnod ar gyfer mân anafiadau ac anhwylderau
- Canolbwynt lles yn ogystal â chaffi cymunedol.

Hefyd amlinellwyd y cynnydd gyda'r prosiect, a oedd fel a ganlyn:

- Rhoddodd Llywodraeth Cymru (LlC) gymeradwyaeth i fynd ymlaen i'r cymal achos Busnes Llawn yn 2019.
- Daethpwyd â thîm prosiect ynghyd ochr yn ochr â Gleeds a Global Property and Construction Consultants

- Cyflwynodd BIPBC a Gleeds ail dendr a chadarnhau Kier Construction fel y Partner Cadwyn Gyflenwi ar gyfer y cynllun
- Datblygwyd model fforddiadwyedd diwygiedig yn unol â chais LlC.
- Dyluniad manwl, Cais Cynllunio a chwblhau'r Achos Busnes Terfynol yn 2020.

Byddai'r amserlen ar gyfer y prosiect yn profi'n anodd. Ond roedd y swyddogion yn credu bod modd ei gyflawni, hysbyswyd y pwyllgor y byddai yna sawl her allweddol yn wynebu'r prosiect. Ymhlith y rhain roedd darpariaeth barhaus a mynediad gan staff a defnyddwyr gwasanaeth yn ystod yr adeiladu ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a'u canfyddiad hwy o oedi. Y gobaith yw y byddai'r safle yn cael ei gwblhau ym Mehefin 2023.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor y byddai adeilad Brenhinol Alexandra ar ei ffurf bresennol yn parhau a byddai'r prosiect newydd yn cael ei godi yng nghefn yr ysbyty.

- Holwyd ynglŷn â'r oedi gyda'r prosiect a pham roedd yn digwydd. Hysbyswyd aelodau fod BIPBC wedi bod drwy amseroedd cythryblus ac nad oedd hynny wedi bod o gymorth gyda'r prosiect. Nid oedd yr oedi wedi ei achosi gan LlC, roedd y prosiect fel unrhyw brosiect arall ac roedd angen llawer o waith i sicrhau y byddai'n cael ei gyflawni. Diolchodd swyddogion hefyd i'r Aelod Cynulliad lleol a oedd wedi bod yn gefnogol iawn i'r prosiect.

- Byddai'r prosiect yn ystyried ei ôl troed carbon wrth adeiladu'r clinig newydd ac adnewyddu adeilad presennol Ysbyty Brenhinol Alexandra.

***PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Brosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych.*

**Ar y pwynt hwn (11.30 am) roedd 10 munud o egwyl.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.40 a.m.**

## 7 PROSIECTAU CYFALAF Y BWRDD IECHYD YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Bethan Jones, y cyflwyniad ar Brosiectau Cyfalaf y Bwrdd Iechyd yn Sir Ddinbych. Hefyd yn bresennol o BIPBC roedd Alison Kemp, Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol, Gwasanaethau Cymunedol.

Roedd y prosiect sy'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd yn ymwneud ag adleoli gwasanaethau o Glinig Mount Street a datblygu Ysbyty Cymunedol Rhuthun. Roedd cynnydd eisoes wedi ei wneud o ran y prosiect a oedd wedi ei gymeradwyo gan BIPBC ar 5 Medi 2019. Roedd wedyn wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) ar 6 Medi ac roedd ar hyn o bryd yn mynd drwy broses graffu LlC. Roedd disgwyl cadarnhad o'r broses gan LlC erbyn dechrau 2020 ac roedd disgwyl i'r

datblygiad gymryd 55 wythnos o’i sefydlu a fyddai gobeithio yn golygu gorffen y prosiect yn 2021.

Hysbyswyd aelodau y byddai'r gwasanaethau ambiwlans oedd wedi eu lleoli yng Nghlinig Mount Street yn cael eu hadleoli i’r orsaf dân yn Rhuthun.

Canmolodd y pwyllgor y prosiect a hefyd y swyddogion am fynychu'r cyfarfod i ateb ymholiadau gan aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Brosiectau Cyfalaf y Bwrdd Iechyd yn Sir Ddinbych.*

## 8 CYTUNDEB CYLLIDEBAU CYFUN AR GYFER LLETY CARTREFI GOFAL I BOBL HŶN 2019-20

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yr adroddiad ar y Cytundeb Cyllidebau Cyfun ar gyfer Llety Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn 2019-20 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar nifer o feysydd yn nhrefniadau’r cyllidebau cyfun.

Atgoffwyd y pwyllgor fod y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019 wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar sefydlu’r gronfa gyfun sengl ranbarthol heb risg a rennir ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal. Cytunodd y Cabinet i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) gynnal y swyddogaeth am gyfnod o dair blynedd. Hysbyswyd y pwyllgor nad oedd yna risg ariannol ynghlwm â chynnal gan fod pob awdurdod yn cyfrannu a bod cyllid grant hefyd yn cael ei ddefnyddio.

Hysbyswyd y pwyllgor fod oedi wedi bod yn ymwneud â’r broses gymeradwyo gyda'r Bwrdd Iechyd a oedd wedi creu oedi o ran trosglwyddo’r cronfeydd. Ond cytunwyd ar y broses ers hynny a byddai’r trosglwyddiad yn digwydd yn nhrydydd chwarter 2020. Nodwyd hefyd y ceisiwyd cadarnhad a oedd angen trosglwyddiad cronfeydd ôl-weithredol ar gyfer chwarteri 1 a 2.

Canmolodd y pwyllgor yr adroddiad a’r wybodaeth ond codwyd pryderon am natur gydweithrediadol y cyllidebau cyfun yn arbennig gyda’r Bwrdd Iechyd gan eu bod mewn mesurau ariannol arbennig, a cheisiwyd sicrwydd na fyddai yna unrhyw risg i’r awdurdod fel awdurdod cynnal ar gyfer y cyllidebau cyfun. Rhoddwyd sicrwydd i’r pwyllgor nad oedd yna unrhyw risgiau i CSDd fel yr awdurdod cynnal gan fod yna fesurau priodol mewn grym er mwyn iddo allu amddiffyn ei hun rhag risgiau ariannol a risg i'w enw da.

***PENDERFYNWYD*** *fod*
*Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi adroddiad y Cytundeb Cyllidebau Cyfun ar gyfer Llety Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn 2019-20*

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

13 Chwefror 2020 – Fod y Cynghorwyr Brian Jones a Tony Thomas yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol ar gyfer Polisïau Cynnal Llain Las a Gwrychoedd Priffyrdd a Chais am Blaladdwyr y Cyngor a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:05 p.m.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Pat Jones, Christine Marston a/ac Peter Scott